## Atodiad A: Rhestr o sefydliadau/cyflwyniadau

### Cyflogwyr a diwydiant

1. Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yng Nghymru (CITB Cymru)

### Dysgu seiliedig ar waith

2. ACT Training
3. Cambrian Training
4. Educ8 Training
5. Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
6. VTCT Skills

### Dysgu Oedolion a Chymunedol

7. Addysg Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf
8. Addysg Oedolion Cymru
9. Cyngor Sir Gâr – Dysgu Cymunedol
10. Coleg Gŵyr Abertawe – Dysgu Oedolion yn y Gymuned
11. Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent
12. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
13. Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Abertawe

### Cyrff Cynrychioliadol

14. Yr Academi Brydeinig
15. Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW)
16. ColegauCymru / Colleges Wales
17. Cwmpas
18. Cyngor Athrawon Peirianneg
19. Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu
20. Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)
21. GW4 Alliance
22. Y Sefydliad Ffiseg
23. Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW)
24. Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
25. Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Prifysgolion a Busnes (NCUB)
26. Y Gymdeithas Gemeg Frenhinol
27. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
28. Prifysgolion Cymru

### Sefydliadau Myfyrwyr

29. Undeb Myfyrwyr Addysg Uwch
30. Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG55173 ISBN ddigiol 978-1-80853-241-2

**Y Trydydd Sector**

31. Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol
32. Dyfodol i'r Iaith
33. Cymdeithas Amgylcheddol Prifysgolion a Cholegau (EAUC)
34. Make UK
35. Cymdeithas Genedlaethol y Colegau Arbenigol (Natspec)
36. Y Rhwydwaith Cyfleoedd Addysg Cenedlaethol (NEON)
37. Ymddiriedolaeth y Brenin Cymru

**Ysgolion**

38. Ysgol Gyfun Caerllion Casnewydd
39. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

**Undebau Llafur**

40. NASUWT – Undeb yr Athrawon
41. Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru (NEU Cymru)
42. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN Wales)
43. UNSAIN
44. Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) (Ymateb 1)
45. Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) (Ymateb 2)

**Addysg Uwch**

46. Prifysgol Bangor
47. Prifysgol Metropolitan Caerdydd
48. Prifysgol Caerdydd (Ymateb 1)
49. Prifysgol Caerdydd (Ymateb 2)
50. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC)
51. Prifysgol Abertawe
52. Y Brifysgol Agored yng Nghymru
53. Prifysgol De Cymru (PDC) – Ymateb 1
54. Prifysgol De Cymru (PDC) – Ymateb 2
55. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS)
56. Prifysgol Wrecsam

**Addysg Bellach**

57. Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC)
58. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
59. Coleg Gwent
60. Coleg Gŵyr Abertawe
61. Grŵp Llandrillo Menai (GLLM)
62. Grŵp Colegau NPTC
63. Coleg Catholig Dewi Sant

**Awdurdod Lleol**

64. Cyngor Sir Gâr
65. Cyngor Sir Ceredigion

66. Cyngor Abertawe
67. Cyngor Bro Morgannwg
68. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

**Rheoleiddwyr a Chyrff Cyhoeddus**

69. Gyrfa Cymru
70. Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
71. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)
72. Estyn
73. Jisc
74. Cymwysterau Cymru
75. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA)
76. Comisiynydd y Gymraeg

**Atodiad B: Tagiau sector a newidynnau dadansoddi**

Addysg Uwch (AU) - Prifysgolion a chyrff cynrychioliadol addysg uwch

Addysg Bellach (AB) - Colegau a chyrff cynrychioliadol addysg bellach

Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) - Sefydliadau sy'n ymwneud â darpariaeth dysgu oedolion a chymunedol

Awdurdodau Lleol (ALl) - Awdurdodau lleol a sefydliadau cynrychioliadol llywodraeth leol

Cyrff Rhanbarthol a Phartneriaeth (RPB) - Partneriaethau sgiliau rhanbarthol a chyrff cydweithredol

Ysgolion (SCH) - Ysgolion, chweched dosbarth neu sefydliadau sy'n cynrychioli darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion

Cyrff Cynrychioliadol (RB) - Sefydliadau aelodaeth, cyrff sector a chymdeithasau proffesiynol

Y Gymraeg (WL) - Sefydliadau sy'n canolbwyntio'n bennaf ar hyrwyddo'r Gymraeg neu ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Trydydd Sector (TS) - Elusennau, mudiadau gwirfoddol a sefydliadau cymunedol

Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) - Sefydliadau sy'n darparu dysgu seiliedig ar waith, hyfforddiant galwedigaethol neu brentisiaethau

Undebau Llafur (TU) - Undebau llafur a sefydliadau sy’n cynrychioli staff

Cyflogwyr a Diwydiant (EI) - Cyflogwyr a sefydliadau diwydiant sy'n canolbwyntio ar sgiliau'r gweithlu, anghenion y farchnad lafur ac ymgysylltu â chyflogwyr mewn addysg drydyddol.

**Newidynnau Dadansoddol**
Sector - Yn nodi'r rhan o'r system addysg drydyddol mae'r ymatebydd yn ei chynrychioli

Rôl y sefydliad - Yn nodi swyddogaeth y sefydliad sy'n ymateb

Daearyddiaeth - Yn gwahaniaethu rhwng gwahanol safbwyntiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

Prif ffocws - Yn nodi'r prif faes o weithgarwch sefydliadol

Grŵp dysgwyr - Yn nodi'r brif boblogaeth o ddysgwyr a gynrychiolir

Model ariannu - Yn gwahaniaethu rhwng gwahanol drefniadau cyllido a chyflawni

**Atodiad C: Llyfr Codau**
Yn cynnwys codau rhiant a phlentyn, gyda disgrifiadau byr.

**1. Cyfranogiad**

P1 Mynediad, tegwch a chyfranogiad
- Rhwystrau i fynediad a chyfranogiad
- Anghydraddoldebau ar draws grwpiau dysgwyr
- Problemau cadw a chwblhau

P2 Cefndiroedd dysgwyr a phroffiliau mynediad
- Cefndir economaidd-gymdeithasol, cyrhaeddiad blaenorol, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a/neu anabledd, lleoliad
- Nodweddion dysgwyr sy'n mynd dechrau AB ar lefelau is

P2 Llwybrau a dilyniant dysgwyr
- Llwybrau rhwng yr ysgol, AB, AU, prentisiaethau, a chyflogaeth
- Llwybrau aflinol neu ail gyfle

P3 Addasrwydd llwybrau
- Barn ynghylch a yw llwybrau yn gweithio'n dda ai peidio
- Llwybrau nad ydynt yn arwain i unlle, aneffeithlonrwydd, a diffyg aliniad â'r farchnad lafur

P4 Patrymau cyfranogiad (AB, AU, rhan-amser, aeddfed)
- Twf mewn cofrestriadau yn AB
- Cyfranogiad myfyrwyr aeddfed a rhan-amser mewn AU
- Cymariaethau rhwng dulliau cyfranogi

P5 Cyfranogiad a thargedau yn y dyfodol
- Rhagfynegiadau am dueddiadau
- Barn ar dargedau (Lefel 4+, prentisiaethau, AU 18 oed)

P6 Goblygiadau cyfranogiad cyfrwng Cymraeg
- Effaith tueddiadau cyfranogi ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog

**2. Demograffeg a dysgu gydol oes**

D1 Newid demograffig a pharodrwydd y system

- Newid yn y boblogaeth, heneiddio, carfanau sy'n gostwng
- Cynllunio a pharodrwydd darparwyr

D2 Rhwystrau i ddysgu gydol oes (cyllid, polisi, gweinyddu)

- Rhwystrau ariannol
- Cyfyngiadau rheoleiddiol
- Cymhlethdod gweinyddol/y system

D3 Dysgu hyblyg (cyflenwad a galw)

- Argaeledd darpariaeth hyblyg (darpariaeth fodiwlaidd, ran-amser, ar-lein)
- Rhwystrau rhag gallu manteisio (amser, ymwybyddiaeth, cymorth cyflogwyr)

D4 Angen sgiliau oedolion (sylfaenol a galwedigaethol)

- Llythrennedd, rhifedd, sgiliau digidol
- Anghenion uwchsgilio/ailsgilio

D5 Polisi a blaenoriaethau dysgu oedolion gan gynnwys Cyfrif Dysgu Personol (PLA)

- Gwersi o’r PLA
- Argymhellion ar gyfer blaenoriaethau addysg oedolion
- Trafodaethau Adran 94 o Ddeddf Addysg ac Ymchwil Trydyddol (Cymru) 2022

**3. Cystadlu a Chydweithio**

C1 Cydweithredu (rhwystrau a galluogwyr)

- Beth sy'n atal ynteu'n cefnogi cydweithredu
- Ffactorau sy’n ymwneud â strwythur, diwylliant, cyllid neu bolisi

C2 Cydweithredu traws-sector (ysgolion, AB, AU)

- Pontio rhwng yr ysgol a’r coleg
- Llwybrau AB - AU
- Cyflenwi ar y cyd neu bartneriaethau

C3 Diogelu'r ddarpariaeth (pynciau a thrawsnewidiadau)

- Diogelu pynciau sy'n fregus
- Cefnogi trawsnewidiadau ar draws y system

C4 Dynameg y farchnad (cystadlu yn erbyn cydweithredu)

- Effeithiau cystadlu rhwng darparwyr
- Tensiwn rhwng ymddygiad y farchnad a gwaith cynllunio’r system

C5 Strwythur a risgiau’r farchnad AU

- Marchnad israddedig heb ei chapio
- Datblygiad y farchnad yn y dyfodol
- Mannau oer a bregusrwydd pynciau

**4. Cynaliadwyedd Ariannol**

F1 Modelau effeithlonrwydd a chyflenwi
- Modelau darpariaeth effeithlon
- Gwasanaethau a rennir, cyflenwi digidol, ailstrwythuro

F2 Pwysau cost a heriau cynaliadwyedd
- Pwysau ariannol ar sefydliadau
- Pryderon cynaliadwyedd

F3 Arbedion cost ac arbedion effeithlonrwydd yn y system
- Meysydd a awgrymwyd ar gyfer arbedion posibl
- Gwelliannau effeithlonrwydd ar lefel y system

F4 Rhwystrau a chymorth ariannol i ddysgwyr
- Costau byw, dysgu, trafnidiaeth
- Grantiau yn erbyn benthyciadau
- Mynediad at gymorth ariannol

F5 Enillion ar fuddsoddiad (economaidd a chymdeithasol)
- Gwerth addysg i unigolion, y gymdeithas, yr economi

F6 Buddsoddiad cyfalaf a seilwaith
- Ystadau, cyfleusterau, seilwaith digidol
- Blaenoriaethau ar gyfer cyllid cyfalaf

**5. Cymunedau a'r economi**

E1 Canlyniadau a data Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO)
- Canlyniadau graddedigion
- Blaenoriaethau a bylchau o ran y data
- Mesur llwyddiant

E2 Aliniad y farchnad lafur
- Bylchau sgiliau
- Anghenion cyflogwyr
- Aliniad rhwng darpariaeth a'r economi

E3 Ymchwil, arloesi a buddsoddi
- Cyllid ymchwil
- Trosoli buddsoddiad preifat
- Effaith economaidd ymchwil

E4 Arbenigo a chlystyru rhanbarthol
- Arbenigo sefydliadol
- Effeithiau cydgrynhoi
- Cryfderau rhanbarthol

E5 Deallusrwydd artiffisial a newid technolegol
- Cyfleoedd a risgiau deallusrwydd artiffisial
- Yr effaith ar addysgu, dysgu a dylunio systemau

## Atodiad D: Methodoleg

### Amlinelliad

Adolygodd y dadansoddiad gyflwyniadau ysgrifenedig a ddaeth i law trwy'r Galwad am Gyflwyniadau. Ei bwrpas oedd nodi'r prif themâu a godwyd ar draws y dystiolaeth ac ystyried lle codwyd pwyntiau tebyg neu wahanol gan grwpiau ymatebwyr. Nid oedd yn bwriadu graddio cyflwyniadau nac asesu rhinweddau ymatebion unigol. Cafodd y dull methodolegol ei bennu gan ddadansoddwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) yn Llywodraeth Cymru a'i gynnal ganddynt. Defnyddiodd y dadansoddiad ddull dadansoddi thematig. Mae hyn yn ffordd o grwpio tystiolaeth ansoddol mewn themâu tra'n cadw cysylltiad agos â'r deunydd gwreiddiol.

Defnyddiwyd dull didynnol. Mae hyn yn golygu bod y cwestiynau yn yr Alwad am Gyflwyniadau yn cael eu defnyddio fel y fframwaith cychwynnol ar gyfer codio a dadansoddi. Roedd hyn yn sicrhau bod y dadansoddiad yn cyd-fynd â phwrpas yr alwad ac yn darparu ffordd gyson o drefnu a dadansoddi cyflwyniadau.

### Datblygu'r fframwaith dadansoddol

Defnyddiwyd strwythur yr alwad am gyflwyniadau i ddatblygu'r fframwaith codio cychwynnol. Crëwyd codau rhiant a phlentyn i adlewyrchu'r cwestiynau a gynhwyswyd yn yr alwad. Roedd codau rhiant yn themâu eang yn yr alwad tra bod codau plentyn yn bynciau mwy penodol o fewn y themâu hynny. Datblygwyd meini prawf cynnwys ac eithrio i gynnal cysondeb y codio. Cafodd y llyfr codau ei adolygu a'i drafod gan dîm y prosiect cyn dechrau codio. Roedd hyn yn cefnogi dealltwriaeth a rennir o sut y dylid cymhwyso codau.

Er bod y codau rhiant a phlentyn yn adlewyrchu strwythur yr Alwad am Gyflwyniadau, cymhwysodd dadansoddwyr y llywodraeth farn wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol i osod cod penodol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig pan oedd cyflwyniad yn rhoi sylw i sawl mater o fewn yr un darn o destun. Defnyddiwyd codio cynnar a thrafodaethau tîm i wirio a oedd codau yn cael eu cymhwyso'n gyson. Lle bo angen, eglurwyd y fframwaith codio cyn i'r dadansoddiad symud ymlaen i'r cam cydosod.

### Paratoi cyflwyniadau a threfnu setiau data

Daeth cyfanswm o 76 o gyflwyniadau i law a chawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad. Ni roddwyd pwysoliad i unrhyw gyflwyniad. Cyn dechrau codio, rhoddwyd cyflwyniadau mewn categorïau yn ôl y math o sefydliad a newidynnau dadansoddol a oedd wedi'u neilltuo iddynt. Cafodd y gwaith categoreiddio ei lywio gan drafodaethau gyda chydweithwyr polisi. Mae'r dadansoddiad yn dangos bod rhai sefydliadau'n gweithredu ar draws sawl sector neu swyddogaeth. At ddibenion dadansoddi, neilltuwyd pob cyflwyniad i un categori yn seiliedig ar brif rôl y sefydliad neu ei brif ffocws ar gyd-destun yr Alwad am Gyflwyniadau. Roedd hyn yn galluogi gwaith dadansoddi cyson ar draws grwpiau ymatebwyr heb newid y pwysoliad a

roddwyd i unrhyw gyflwyniad unigol. Roedd hyn yn cynnal cymharu ar draws grwpiau ymatebwyr heb newid y pwysoliad a roddwyd i unrhyw gyflwyniad.

Yn ogystal â chategorïau sefydliadol, datblygwyd set o newidynnau dadansoddol i gefnogi adolygiad systematig o'r set ddata. (gweler atodiad B)

Roedd y dosbarthiadau hyn yn galluogi deunydd a oedd wedi'i godio i gael ei hidlo, ei adolygu a'i gymharu ar draws grwpiau cyflwyno. Gwnaethant hefyd ddarparu cofnod clir rhwng cyflwyniadau unigol; darnau wedi'u codio a'r themâu a ddatblygwyd yn ystod camau diweddarach y gwaith dadansoddi.

**Sicrhau ansawdd**

Ymgymerwyd â gwaith sicrhau ansawdd fel rhan barhaus ac integredig o'r broses ddadansoddi yn hytrach nag un cam. Helpodd hyn i gynnal cysondeb a sicrhau bod canfyddiadau wedi'u seilio ar y deunydd a gyflwynwyd.

Yn gynnar yn y dadansoddiad, adolygwyd sampl fach o gyflwyniadau yn annibynnol gan ddau ddadansoddwr KAS. Pwrpas yr ymarfer hwn oedd cefnogi'r gwaith cychwynnol o raddnodi'r fframwaith codio trwy brofi eglurder y codau a'r dull o'u cymhwyso ar draws cyflwyniadau a oedd yn amrywio o ran eu cynnwys a'u ffocws. Yna cafodd penderfyniadau codio eu cymharu a'u trafod i nodi unrhyw amwysedd o ran dehongli, mireinio cymhwysiad y llyfr codau a sefydlu dull dadansoddi cyson cyn i godio symud ymlaen ar draws y set ddata ehangach. Roedd hyn yn rhan o broses sicrhau ansawdd ehangach a oedd hefyd yn cynnwys trafodaethau tîm rheolaidd, adolygiad o allbynnau codio a chraffu ar ganfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg drwy gydol y dadansoddiad.

**Y broses godio**

Mewnforiwyd yr holl gyflwyniadau i feddalwedd dadansoddi ansoddol (MaxQDA), sef pecyn meddalwedd dadansoddi ansoddol a ddefnyddir i drefnu a chodio testun, a chawsant eu codio gan ddefnyddio'r fframwaith dadansoddol y cytunwyd arno. Darllenwyd pob cyflwyniad yn llawn i sicrhau bod y codio'n adlewyrchu cyd-destun llawn pob ymateb yn hytrach na darnau ynysig.

Cynhaliwyd gwaith codio ar lefel unedau ystyrlon o destun, fel arfer yn dal syniadau, dadleuon neu gynigion cyflawn. Defnyddiwyd y dull hwn i osgoi darnio'r pwyntiau a wnaed mewn cyflwyniadau a gwnaeth gadw digon o gyd-destun ar gyfer dadansoddi diweddarach. Nid oedd rhannau mawr iawn o'r testun wedi'u codio lle byddai gan hyn gywirdeb dadansoddol cyfyngedig.

Cymhwyswyd meini prawf cynnwys ac eithrio yn gyson drwy gydol y set ddata i lywio penderfyniadau codio. Pan oedd cyflwyniadau'n mynd i'r afael â sawl mater o fewn un darn, codwyd segmentau i fwy nag un cod perthnasol i adlewyrchu natur rhyng-gysylltiedig safbwyntiau rhanddeiliaid.

Drwy gydol y codio, cynhaliwyd trafodaethau tîm rheolaidd i adolygu materion a oedd yn dod i'r amlwg ac allbynnau codio cynnar, a hynny i egluro dull cymhwyso'r codau, er mwyn sicrhau cysondeb o ran dehongli a darparu craffu ychwanegol a nodi unrhyw feysydd a oedd angen eu mireinio.

Rhannwyd canfyddiadau rhagarweiniol gyda thîm ehangach y prosiect, er mwyn profi dehongli a nodi unrhyw fylchau neu gamddosbarthu yn y data a oedd wedi’u codio. Pan nodwyd bod angen mireinio’r cod, adolygwyd yr holl ddarnau a oedd wedi’u codio a’u neilltuo yn llawn gan ddau ddadansoddwr, a chafodd unrhyw gamddosbarthiadau a nodwyd eu hailaseinio yn ôl yr angen.

Dilynwyd yr holl adolygiadau i'r llyfr codau gan ddiweddaru'r meini prawf cynnwys ac eithrio. Yna cafodd y fframwaith a oedd wedi’i ddiweddaru ei gymhwyso’n gyson i'r set ddata a oedd yn weddill.

**Cydosod data a datblygu themâu**

Ar ôl codio, cafodd yr holl segmentau a oedd wedi’u codio eu hallforio a'u trefnu yn ôl cod rhiant a phlentyn i gefnogi cydosod y dystiolaeth yn systematig. Adolygodd dadansoddwyr y deunydd a oedd wedi’i godio ym mhob categori i nodi materion a oedd yn codi’n fynych a gwahaniaethau o ran pwyslais.

Cynhyrchwyd crynodebau cychwynnol ar gyfer pob cod rhiant trwy goladu segmentau a oedd wedi’u codio a chael gwared ar ailadrodd. Yna gwiriwyd y crynodebau hyn yn erbyn y data sylfaenol i gadarnhau eu bod yn adlewyrchu’n gywir gynnwys a phwyslais cyflwyniadau. Gwnaeth hyn helpu i gadw cysylltiad rhwng y cyflwyniadau gwreiddiol, y darnau wedi'u codio a'r canfyddiadau.

Defnyddiwyd Microsoft Copilot, sef offeryn â chymorth deallusrwydd artiffisial, i gefnogi’r gwaith o gydosod cyfeintiau mawr o ddata a oedd wedi'u codio trwy gynhyrchu crynodebau drafft o segmentau a oedd wedi'u codio a’u rhoi mewn grwpiau. Er mwyn cefnogi hyn, cafodd awgrym Copilot wedi’i deilwra ei ddatblygu a’i fireinio i ddarparu fframwaith dadansoddol clir a chyson ar gyfer crynhoi tystiolaeth. Roedd yr ysgogiad yn gofyn i allbynnau ddefnyddio iaith ochelgar, osgoi dod i gasgliadau heb dystiolaeth a glynu wrth y deunydd a oedd wedi’i godio a gyflenwyd.

Defnyddiwyd yr offeryn i gefnogi gwaith trefnu a chrynhoi yn unig. Ni chafodd ei ddefnyddio i gynhyrchu canfyddiadau yn annibynnol. Roedd dadansoddwyr dynol yn cadw cyfrifoldeb llawn am adolygu, golygu a dilysu'r holl allbynnau. Cafodd yr holl grynodebau a gynhyrchwyd gan AI eu gwirio yn erbyn y deunydd codio gwreiddiol a'u diwygio lle bo angen i sicrhau cywirdeb, cydbwysedd, eglurder a chynrychiolaeth briodol o farn rhanddeiliaid.

Yn dilyn gwaith cydosod, archwiliwyd achosion o debygrwydd a gwahaniaethau rhwng cyflwyniadau mewn modd systematig. Cynhaliwyd cymariaethau gan ddefnyddio'r newidynnau dadansoddol a ddatblygwyd wrth baratoi setiau data, gan gynnwys y math o sefydliad a’r sector. Roedd hyn yn galluogi nodi amrywiad mewn safbwyntiau ar draws gwahanol grwpiau ymatebwyr.

Datblygwyd themâu trwy broses iterus o adolygu a mireinio'r dystiolaeth gryno. Roedd hyn yn cynnwys grwpio materion, pryderon a chynigion cysylltiedig o dan themâu lefel uwch.

Datblygwyd y strwythur thematig terfynol o'r deunydd a oedd wedi'i godio. Mae'n adlewyrchu'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau a ddaeth i law.

**Cryfderau a chyfyngiadau**

Tynnodd y dadansoddiad ar bob un o'r 76 cyflwyniad a ddaeth i law trwy'r Alwad am Gyflwyniadau. Dadansoddwyd pob cyflwyniad gan ddefnyddio fframwaith codio cyffredin. Roedd y defnydd o godio strwythuredig, sicrhau ansawdd parhaus ac adolygu iterus yn cefnogi cysondeb yn y dadansoddiad. Roedd y dull hefyd yn darparu cyswllt tryloyw rhwng y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r themâu a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu barn sefydliadau a rhanddeiliaid a ymatebodd i'r Alwad am Gyflwyniadau. Ni ddylid eu dehongli fel rhai sy'n ystadegol gynrychioliadol o'r sector addysg drydyddol ehangach. Bwriad dadansoddi thematig yw nodi patrymau a safbwyntiau o fewn tystiolaeth ansoddol yn hytrach na mesur cyffredinrwydd safbwyntiau.

Nid oedd y dadansoddiad yn gwirio'n annibynnol yr honiadau ffeithiol a wnaed mewn cyflwyniadau. Am fod y fframwaith codio yn dilyn strwythur yr Alwad am Gyflwyniadau, efallai bod materion y tu allan i'r strwythur hwnnw wedi cael llai o sylw.

Roedd rhai cyflwyniadau yn darparu tystiolaeth sefydliadol neu sector gyfan helaeth, tra bod eraill yn canolbwyntio ar bryderon lleol neu weithredol neu bryderon a oedd yn ymwneud â materion penodol. Roedd yr amrywiad hwn yn adlewyrchu rolau, adnoddau a safbwyntiau gwahanol ymatebwyr. O ganlyniad, roedd cyflwyniadau yn amrywio o ran hyd, cwmpas a lefel manylder, ac efallai bod rhai materion wedi cael sylw manylach oherwydd natur y dystiolaeth a gyflwynwyd. Felly, ystyriodd y dadansoddiad sylwedd a pherthnasedd pob pwynt, yn hytrach na thrin cyflwyniadau hirach neu fwy manwl fel rhai sy'n cael mwy o ddylanwad.